# CYNGOR CYMUNED LLANDDANIEL FAB

**Cyfarfod y Cyngor: Dydd Llun, 20 Mai 2024, Yr Efail, 18:45-20:45**
**Cyfarfod Blynyddol**

## 1. Croeso ac ymddiheuriadau

**Presennol:** Margaret Clarke (Cadeirydd), Dawn Doran-Jones (Is- Gadeirydd), Cyng. Dafydd Roberts, Guto Williams, Joanna Robertson. Cyng. Alwen Watkin yn ymuno yn ystod Eitem 5.
**Ymddiheuriadau**: Rob Sargent, Mark Owen.

## 2. Cofnodion

Dawn yn cadarnhau bod cofnodion mis Ebrill yn gofnod cywir, Dafydd yn eilio.

## 3. Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd

Pawb yn hapus i Margaret a Dawn barhau yn eu safleoedd am flwyddyn arall.
Cynnig ac eilio: DR / GW.

## 4. Penodi aelodau ar bwyllgorau presennol

Wedi trafodaeth, penderfynwyd i wneud i ffwrdd â'r Pwyllgor Cyllid.
Yr aelodau yn cytuno i Dawn, Rob a Guto barhau yn aelodau o'r Pwyllgor Cae Chwarae; aelodaeth y Pwyllgor Diogelwch Ffyrdd hefyd i aros yr un fath, Joanna, Margaret, Dafydd a Rob.

## 5. Materion yn codi

**Cyfarfod Medrwn Môn - Cludiant cyhoeddus**

Adroddwyd bod nifer dda o bobl yn bresennol yn y cyfarfod yn Ystafell Gymunedol Tan-y-Capel ar 22 Ebrill. Cafwyd eglurhad o ganlyniadau yr arolwg yn yr Hydref a thrafodaeth a arweiniodd at syniadau a chynigion da. Trafododd yr aelodau rai syniadau posibl, a'r hyn y mae cymunedau eraill yn ei wneud.
Mae Medrwn Môn gyda rôl i helpu i rymuso cymunedau a'u cefnogi i helpu eu hunain. Mae cymorth ariannol ar gael, a gallant helpu gyda'r broses hawlio.

**Cynghrair Bodowyr –**

Nodwyd bod tri o'r aelodau yn bresennol yn y cyfarfod yng Nghanolfan Brynsiencyn 14 Mai. Mae trefniadau ar weill i gynnal ymarfer mapio i ddiweddaru'r Gofrestr Asedau Cymunedol. Dylem annog cymaint o bobl â phosibl i gymryd rhan i ni, fel Cyngor, fod yn ymwybodol o'u anghenion a'u cefnogi; gallwn wneud cludiant cyhoeddus yn flaenoriaeth.

## 6. Datgan diddordeb

Dim datganiad.

## 7. Cynllunio

Dim ceisiadau newydd yn y cyfnod.

## 8. Adolygu a mabwysiadu Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol

Penderfynwyd cadarnhau Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol y Cyngor.

## 9. Materion ariannol

**Adroddiad misol**:

Incwm a gwariant ers y cyfarfod diwethaf:
Incwm:

| | |
|---|---|
| Praesept Ebrill | £4,548.33 |

| | | |
|---|---|---|
| Gwariant: | | |
| Bagiau gwastraff cwn | £76.03 | |
| Misol: | | |
| Cyfieithu ar y pryd - Ebrill | £101.25 | |
| Llogi offer cyfieithu - Ebrill | £ 30.00 | |
| Costau banc | £ 5.00 | |
| Cyflog y Clerc | £415.88 | |
| CThEM – taliadau statudol | £103.80 | |
| | | £731.96 |

**Yswiriant***:* Rhoddwyd cymeradwyaeth i'r Clerc wneud taliad yn y swm £1,368.66 i adnewyddu yswiriant y cyngor am y 12 mis nesaf.

**Archwiliad Mewnol blynyddol***:*
Mae Cyngor Gwynedd wedi cwblhau yr archwiliad ac wedi arwyddo y datganiad blynyddol 2023-2024. Nodwyd yn yr adroddiad bod rhai elfennau y gellir eu tynhau i liniaru risgiau a adnabuwyd:

- Methiant i gyhoeddi dogfennau ar-lein
- Cyfrifoldebau, dyletswyddau a hawliau'r Clerc heb eu dogfennau mewn cytundeb gwaith cyfredol.
- Diffyg rheolaethau o wahaniaethau mewn dyletswyddau wedi cael ei sefydlu wrth greu, cymeradwyo a thalu anfonebau ar lein.

Nodwyd bod camau yn cael eu cymryd i roi cofnodion 2023 ar-lein, a bydd cofnodion y flwyddyn yma yn dilyn yn fuan, ynghyd â'r cyfrifon archwiliedig, cyn gynted ag y bydd y broses archwilio allanol wedi'i chwblhau.
Mae cytundeb gwaith y Clerc wedi ei arwyddo erbyn hyn a chadarnhaodd y Cadeirydd bod y Clerc wedi cwblhau'r cyfnod prawf yn foddhaol ac y bydd cadarnhad ysgrifenedig yn dilyn. Cadarnhawyd bod uchafswm terfynau talu dyddiol cyfunol ar waith ar y cyfrif banc.

*Cymeradwyaeth i dalu Cyngor Gwynedd am wneud yr archwiliad mewnol yn y swm £230 pan ddaw yr anfoneb i law.*

**Asesiad Risg**
Copi o'r asesiad risg ariannol, offer ac eiddo'r gymuned wedi ei gylchredeg ar ebost. Pawb yn derbyn bod yr asesiad yn gyflawn a chyfredol. Nodwyd fodd bynnag bod angen gwaith ar y gofeb oherwydd bod rhai o'r rheiliau ffens wedi pydru ac mae angen glanhau y gofeb ei hun. Dywedodd y Cynghorydd Sir (DR) y byddai yn gwneud ymholiadau i ganfod oes modd cael cymorth elusennol i wneud y gwaith. Asesiadau arferol hefyd wedi adnabod bod angen trwsio y ffrâm ddringo yn y cae chwarae, gweler isod.

**Adolygu'r Gofrestr Asedau**
Adolygwyd a phenderfynwyd cadarnhau y Gofrestr Asedau yn gofnod cywir.

**Archwiliad Allanol Cyfrifon 2023-2024**
Cafwyd llofnod y Cadeirydd ar y ffurflen flynyddol; bydd y Clerc yn sicrhau y bydd y datganiad cyfrifyddu a'r dogfennau ategol yn cael eu cyflwyno i Archwilio Cymru mewn da bryd.

**10. Llythyrau i'w trafod**
**Airbnb/gosod stafelloedd –**

Mae'r Cyngor Cymuned wedi derbyn e-bost yn tynnu sylw at bryderon cymdogion ynglŷn ag eiddo sy'n cael ei weithredu fel llety gwyliau drws nesaf i'w cartref, ystafelloedd unigol yn cael eu gosod, mae'n ymddangos, a llawer o fynd a dod. Er nad yw'n ofyniad cyfreithiol, ni ymgynghorwyd â'r cymdogion ar y newid defnydd arfaethedig gan y perchennog ond maent yn teimlo bod hyn yn effeithio ar eu preifatrwydd a'u cysur a hefyd yn effeithio ar ddiogelwch ar y ffyrdd, gyda parcio i'r holl geir yn creu problem. Rhoddwyd amser i'r trigolion godi eu pryderon tuag at ddiwedd y cyfarfod a chawsant eu clywed gan yr aelodau oedd yn cytuno bod materion diogelwch ffyrdd a pharcio yn bryder yn y pentref ers tro ac er nad yw'r canlyniadau y maent wedi obeithio amdanynt wedi'u cyflawni hyd yn hyn, rhoddwyd sicrhad y bydd y Cyngor Cymuned yn parhau i ymgyrchu dros wella diogelwch ar y ffyrdd.

**Llwybrau cyhoeddus –**

Mae'r Cyngor Sir wedi adrodd bod aelod o'r cyhoedd wedi gwneud cwyn parthed gordyfiant ar lwybr Parc Deiniol Sant/ Ty Mawr. Mae'r Clerc wedi gofyn i'r contractiwr am ddyfynbris i glirio'r llwybr. Nodwyd hefyd bod gwaith angen ei wneud ar lwybr Tyddyn Eurach; mae'r llwybr yn gul ac fe ddylai fod yn fwy hygyrch. Mae angen clirio'r ochrau a symud y ffens.

Bydd y Clerc yn cysylltu â'r Cyngor Sir i ganfod y swm y gall y Cyngor Cymuned ei adennill yn 2024-2025 ar gyfer cynnal y llwybrau cyhoeddus ac yn rhoi gwybod i'r swyddog cyfrifol am gyflwr llwybr Tyddyn Eurach.

## 11. Newyddlen y Pwyllgor Safonau

Yr aelodau yn nodi cynnwys y newyddlen.

## 12. Llwybr Noddfa

Mae pobl wedi nodi bod y llwybr mewn cyflwr gwael, er wedi cael ei drin llynedd. Oherwydd bod gaeaf diwethaf wedi bod yn neilltuol o wlyb, mae angen mwy o gerrig, rhai mwy bras, i wneud y llwybr yn fwy sefydlog. Bydd y Clerc yn cysylltu â'r Cyngor Sir.

## 13. Cae chwarae - diweddariad

Nodwyd bod angen trwsio y ffrâm ddringo; er yr aseswyd bod y ffrâm yn saff i'w defnyddio, cytunwyd i'r Cadeirydd drefnu i'w thrwsio cyn gynted â phosib.

Dim diweddariad ynghylch y broblem draenio; cyn gynted ag y bydd hyn wedi sortio, gallwn symud ymlaen gyda'r ddarpariaeth ar gyfer y plant iau.

## 14. Coed y Gof - diweddariad

Mae mater draenio yn berthnasol yma hefyd, a bydd y Cyngor Sir yn ymgymryd â'r gwaith o wneud atgyweiriadau.

## 15. Diogelwch ffyrdd

Adroddodd y Cadeirydd am gyfarfod rhwng y Peiriannydd Grŵp - Rheolwr Gwaith Stryd a Gorfodaeth Parcio y Cyngor Sir, ac un o'r gweithwyr cyfrifol am y gwaith sy'n cael ei wneud gan SPEN ar y ffordd. Cynhaliwyd y cyfarfod oherwydd bod Priffyrdd wedi derbyn nifer o gwynion. Mae'r gwaith yn angenrheidiol; cytunwyd fod SPEN wedi gwneud popeth o fewn eu gallu i wneud y gwaith heb darfu'n ormodol ar bobl ac wedi llwyddo i gadw y lonydd yn agored, heblaw am un diwrnod. Disgwylir i'r gwaith yma gael ei gwblhau wythnos nesaf.

Mae'r aelodau wedi derbyn cwynion am y cynnydd yn y traffig sy'n mynd drwy'r pentref ac yn teimlo fod hyn oherwydd mai dyma'r llwybr byrraf. Nodwyd bod y llywodraeth wedi penodi Gweinidog Trafnidiaeth newydd ac mae gwaith yn cael ei wneud i sicrhau bod 20mya wedi'i dargedu'n wirioneddol yn y mannau priodol, yn enwedig lle mae plant a phobl hŷn mewn perygl.

**16. Clwb tenis bwrdd**

Yn y cyfarfod mis diwethaf cytunodd dau o'r aelodau i ymchwilio i sefydlu clwb tenis bwrdd; maent wedi anfon diweddariad i'r aelodau a chafwyd trafodaeth am hyn yn y cyfarfod. Nid oes dim byd i blant ifanc wneud yn y gymuned, a does dim bysiau ar gael nawr. Cytunwyd y byddai yn syniad da i siarad â phobl yn gyntaf cyn gwneud unrhyw gais am gyllid grant.

Penderfynwyd trafod hyn yng nghyfarfod nesaf Cynghrair Bodowyr, ar 11 Mehefin. Fe all y Gynghrair helpu hwyluso'r cysylltiadau ac efallai bod yn bosib cyflogi gweithiwr ieuenctid i weithio'n gydlynol rhwng cymunedau. Cynigiodd y Cynghorydd Sir (DR) ymholi o fewn y Cyngor am wasanaethau pobl ifanc.

**17. Llygod mawr**

Un o'r trigolion wedi dod o hyd i nyth llygod mawr wrth glirio'r ardd ac wedi dod â'r mater i sylw un o'r aelodau. Mae'r ardd yn terfynu ar yr egwlys, ac yn ôl y trigolyn, mae angen clirio ochr draw y wal hefyd i gael gwared o'r llygod mawr. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu gyda'r egwlys i roi gwybod am y llygod mawr gan bod y mater wedi dod i'n sylw.

**18. Adroddiad Blynyddol**

Yr aelodau wedi adolygu'r adroddiad ac yn derbyn y cynnwys.

**19. Adroddiad o unrhyw gyfarfodydd**

Adroddodd y Cynghorydd Sir (DR) ar sut mae toriadau cyllideb yn effeithio ar Ysgol Parc y Bont.

**20. Adroddiad gan y Cynghorydd Sir**

Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Sir (DR) ar ddigwyddiadau yn y Cyngor yn cynnwys diweddariad ar statws Ysgol Uwchradd Caergybi, sydd wedi ei chategoreiddio fel Categori 3 – trosiannol, sy'n golygu y bydd yn troi yn ysgol Gymraeg yn y man. Mae ysgolion wedi'u categoreiddio yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i genfogi a pharatoi ar gyfer cyflwyno 'Cwricwlwm i Gymru' a'r nod cenedlaethol o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Nodwyd hefyd bod Ysgol Uwchradd Bodedern wedi llwyddo i godi rhif derbyniadau yr ysgol wrth ad-drefnu yr uned chweched dosbarth. Mae'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyfarfod Blynyddol fory. Mae aelodau wedi cael eu hysbysu am y cynllun achos busnes ar gyfer y Porthladd Rhydd, Caergybi. Bydd cyfleon i bobl gael cyflogaeth.

Arwyddwyd: [signature]        Dyddiad: 19-6-24

# LLANDDANIEL FAB COMMUNITY COUNCIL

**Council Meeting: Monday, 20 May 2024, Yr Efail, 18:45-20:45**
**Annual Meeting**

## 1. Welcome and apologies
**Present:** Margaret Clarke (Chair), Dawn Doran-Jones (Vice-Chair), Cllr. Dafydd Roberts, Guto Williams, Joanna Robertson. Cllr. Alwen Watkin joined during Item 5.
**Apologies**: Rob Sargent, Mark Owen.

## 2. Minutes
It was resolved to accept April minutes as a true and accurate record.
Proposed and seconded: DDJ /DR.

## 3. Election of Chair and Vice Chair
Everyone in agreement for Margaret and Dawn to remain in their roles for another year.
Proposed and seconded: DR / GW.

## 4. Appoint members to existing committees
After discussion, it was decided to do away with the Finance Committee.
Members agreed to Dawn, Rob and Guto remaining as members of the Playground Committee; membership of the Road Safety Committee to also remain the same, Joanna, Margaret, Dafydd and Rob.

## 5. Matters arising
**Medrwn Môn meeting - Public transport**
It was reported that a good number of people attended the meeting at Tan-y-Capel Community Room on April 22. The results of the survey in the Autumn were clarified and discussions led to good ideas and proposals. Members discussed some possible ideas, and considered what other communities are doing.
Medrwn Môn has a role to help empower communities and support them to help themselves. Financial support is available, and they can help with the claims process.
**Bodowyr Alliance –**
It was noted that three members attended the meeting at Canolfan Brynsiencyn on 14 May. Arrangements are underway to undertake a mapping exercise to update the Community Asset Register. The Community Council should encourage as many people as possible to get involved so the Council can be aware of and supportive of their needs; public transport can be made a priority.

## 6. Declaration of interest
None.

## 7. Planning
No new consultations in the period.

## 8. Review and adoption of standing orders and financial regulations
It was decided to accept the Council's Standing Orders and Financial Regulations.

## 9. Financial matters
**Monthly report**:
Income and expenditure since the last meeting:
Income:

| | | |
|---|---|---|
| April precept | | £4,548.33 |
| | | |
| Expenditure: | | |
| Dog waste bags | £76.03 | |
| Monthly: | | |
| Simultaneous translation - April | £101.25 | |
| Hire of translation equipment – April | £ 30.00 | |
| Bank charges | £ 5.00 | |
| Clerk's wages | £415.88 | |
| HMRC – statutory payments | £103.80 | |
| | | £731.96 |

**Insurance**: Authorisation for the Clerk to make a payment in the sum of £1,368.66 to renew the Council's insurance for the next 12 months.

**Annual Internal audit**:
Gwynedd Council has completed the audit and signed the annual return 2023-2024. It was noted in the report that there are some elements that can be tightened to mitigate identified risks:

- Failure to publish documents online.
- Clerk's responsibilities, duties and employment rights not documented in a current employment contract.
- Lack of controls of separation of duties in place when creating, approving and paying invoices online.

It was noted that steps are being taken to put the 2023 documents online, and this year's records will follow shortly, along with the audited accounts, as soon as the external audit process is complete.
The Clerk's employment contract has now been signed and the Chair confirmed that the Clerk has satisfactorily completed the probationary period; written confirmation will follow. Maximum combined daily payment limits are in place on the bank account.

*Approval to pay Gwynedd Council for carrying out the internal audit in the amount £230 when the invoice is received.*

**Risk Assessment**
A copy of the financial, equipment and community property risk assessment previously circulated by email. Everyone agreed that the assessment is complete and up to date. It was noted however that the war memorial needs work because some of the fence railings have rotted and the memorial itself needs to be cleaned up. The County Councillor (DR) said he would make enquiries to establish if charitable support can be obtained to carry out the work. Routine assessments have also identified the need to repair the climbing frame in the playing field, see below.

**Review of the Asset Register**
The asset register was reviewed and confirmed as an accurate record.

**External Audit - Accounts 2023-2024**
The Chair's signature was obtained on the annual return; the Clerk will ensure that the accounting statements and supporting documents are submitted to Audit Wales in good time.

## 10. Letters to discuss

**Airbnb/room lets –**

The Community Council has received an email highlighting the concerns of neighbours regarding a property that is being operated as a holiday let next door to their home, rooms apparently being let singly, with regular comings and goings. Although not a legal requirement, the neighbours were not consulted on the planned change of use by the owner but feel that this is impacting on their privacy and comfort and also impacting road safety, with access to parking for the additional cars a problem. The residents were granted time to raise their concerns towards the end of the meeting and were heard by members who agreed that road safety and parking issues are a concern in the village and gave assurances that despite outcomes hoped for not being achieved so far, the Community Council will continue to campaign for improved road safety.

**Public footpaths –**

The County Council has reported that a member of the public has made a complaint regarding overgrowth on the Parc Deiniol Sant/ Ty Mawr footpath. The Clerk has subsequently asked the contractor for a quote for this work. It was also noted that work needs to be carried out on the Tyddyn Eurach footpath; the path is narrow and should be more accessible. The sides need to be cleared and the fence removed.

The clerk will contact the County Council to ascertain the sum the Community Council is able to recover in 2024-2025 for maintaining the footpaths and will inform the responsible officer about the condition of the Tyddyn Eurach footpath.

## 11. Standards Committee Newsletter

Members noted the content of the newsletter.

## 12. Noddfa footpath

People have noted that the footpath is in poor condition despite maintenance work being carried out last year. Because last winter has been particularly wet, coarser stones are needed to make the footpath more stable. The Clerk will contact the County Council.

## 13. Playground - update

It was noted that the climbing frame needs repair; although the frame was assessed as safe to use, it was agreed that the Chair will make arrangements for its repair as soon as possible.

No update on the drainage problem; as soon as this is sorted, we can move forward with the provision for the younger children.

## 14. Coed y Gof - update

The issue of drainage is also relevant here, and the County Council will take on the work of making repairs.

## 15. Road safety

The Chairman reported of a meeting between the Council's Group Engineer – Street Works and Parking Enforcement Manager and one of the workers responsible for the SPEN roadworks. The meeting was held because Highways had received a number of complaints. The work is necessary; it was agreed that SPEN had done all they could to get the work done without unduly disturbing people and had managed to keep the roads open, except for one day. This work is expected to be completed next week.

Members have received complaints about the increased traffic passing through the village and feel this is because it is the shortest route. It was noted that the government has appointed a new Transport Minister and work is being carried out to ensure that

20mph is targeted in the right areas, particularly where children and older people are at risk.

**16. Table Tennis Club**

At last month's meeting two members agreed to look into setting up a table tennis club; they have sent an update to members and this was discussed at the meeting. There is nothing for young children to do in the community, and buses are not available now. It was agreed that it would be a good idea to talk to people first before making any application for grant funding. It was resolved to raise this at the next meeting of the Bodowyr Alliance, on 11 June. The Alliance can help facilitate the contacts and it may be possible to employ a youth worker to work collaboratively between communities.
The County Councillor (DR) will enquire within the Council about young people's services.

**17. Rats issue**

One of the residents came across a colony of rats while clearing the garden and has brought the matter to the attention of one of the members. The garden borders church property and according to the resident, the far side of the wall also needs to be cleared to remove the rats. It was agreed that the Clerk would contact the church to report the rats as the matter was brought to the Council's attention.

**18. Annual Report**

The members reviewed the content and approved the report.

**19. Reports of any meetings**

The County Councillor (DR) reported on how budget cuts are impacting Ysgol Parc y Bont.

**20. Report from County Councillors**

The County Councillor (DR) reported on events at the Council including an update on the status of Holyhead High School, which is categorised as Category 3 – transitional, meaning it will become a Welsh language school in due course. Schools are categorised according to Welsh-medium education provision to support and prepare for the delivery of a 'Curriculum for Wales' and the national goal of one million Welsh speakers by 2050. It was also noted that Ysgol Uwchradd Bodedern has successfully raised the school's admissions number with the reorganisation of the sixth form unit.
The Council's Executive meets tomorrow, and the Annual Meeting is also tomorrow. Members have been made aware of the business case/plans for Holyhead Freeport. There will be opportunities for people to gain employment.

Signed: M. G. Blake.                                   Date: 19.6.24.